

Cymeradwywyd gan



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Y
Comisiwn
Etholiadol



Cynllun Iaith Gymraeg Y Comisiwn Etholiadol

Ebrill 2010

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

| | |
|---|----|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Nodau ac amcanion y Cynllun | 3 |
| 3. Cynllunio a darparu gwasanaethau | 4 |
| 4. Delio â'r cyhoedd Cymraeg | 5 |
| 5. Cyflawni rôl y Comisiwn yng Nghymru | 7 |
| 6. Gweithredu a monitro'r Cynllun | 10 |
| Atodiadau | |
| Atodiad A: Dadansoddiad o allbwn y Comisiwn yng nghyd-destun y Cynllun hwn. | 13 |
| Atodiad B: Cynllun Gweithredu | 14 |

1 Cyflwyniad

1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Dyma gynllun y Comisiwn Etholiadol.

1.3 Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

1.4 Mae'r cynllun yn trafod y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.5 Yn y cynllun hwn, ystyr y term '**cyhoedd**' yw unigolion, personau cyfreithiol a chorfforaethau. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae Cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair 'cyhoedd' wrth iddynt gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

1.6 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch cwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

1.7 Corff ledled y Deyrnas Unedig yw'r Comisiwn Etholiadol sy'n darparu gwasanaeth i bleidleiswyr ar draws Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym yn cefnogi etholiadau i'r Senedd, y Cynulliad ac awdurdodau lleol ar draws y Deyrnas Unedig yn ogystal ag i San Steffan ac i Senedd Ewrop. Rydym yn sicrhau ein bod ni'n atebol i gynrychiolwyr etholedig ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn cynnal dull da o gyfathrebu gyda phleidiau gwleidyddol.

1.8 Ar hyn o bryd, mae chwe Chomisiynydd ar fwrdd y Comisiwn Etholiadol, ac un ohonynt yw'r Cadeirydd. Fe fydd Bwrdd y Comisiwn yn cynyddu ei aelodau cyn bo hir o chwe aelod i ddeg, wrth i ragor o Gomisiynwyr gael eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009. Caiff yr holl Gomisiynwyr eu penodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig, ac yn benodol, i Bwyllgor sy'n cael ei gadeirio gan Siaradwr Tŷ'r Cyffredin.

1.9 Mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Belfast, a hefyd yng Nghaerwysg, Llundain, Coventry a Chaerefrog sy'n delio â rhanbarthau Lloegr.

1.10 Ein cyfrifoldebau pennaf yw:

- cofrestru pleidiau gwleidyddol a thrydydd partiön
- sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ynghylch cyllid pleidiau ac etholiadau
- cyhoeddi manylion am ffynonellau ariannu pleidiau ac ymgeiswyr, a sut maen nhw'n ei wario
- gosod y safonau ar gyfer rhedeg etholiadau ac adrodd ar ba mor dda y gwneir hyn
- sicrhau bod pobl yn deall ei bod yn bwysig cofrestru i bleidleisio, a'u bod nhw'n gwybod sut i bleidleisio

1.11 Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 12 Ebrill 2010.

1.12 Mae'r cynllun hwn yn disodli ein cynllun blaenorol, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2006.

1.13 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn awyddus i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth fel cyflogwr a thrwy ei waith. I gefnogi'r nod hon, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Sengl, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn.

2 Cefndir

2.1 Mae'r Comisiwn wedi meithrin yr egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut fydd y Comisiwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'w rhanddeiliaid ac i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.2 Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau, dogfennau a ffurflenni statudol, yn ogystal â chyhoeddiadau a deunyddiau cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn hefyd yn ymgymryd ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus yn unol â'i amcan statudol o hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch systemau etholiadol a democrataidd.

2.3 Mae parchu'r ddwy iaith wrth weithredu yng Nghymru wedi bod yn ddull o weithio gan y Comisiwn ers y'i sefydlwyd. Er enghraifft, mae wedi derbyn cyfrifon gan bleidiau gwleidyddol drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg, a chyhoeddi adroddiadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Chymru yn ddwyieithog o fewn un gyfrol.

2.4 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys nifer o arferion gweithio cyfredol y Comisiwn yn ei swyddogaethau yng Nghymru, ac mae'n ffurfioli ei bolisiau iaith ymhellach yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Cynllun hwn yn trafod gwaith sy'n cael ei gynnal gan drydydd partïon sy'n gweithio o dan contract i'r Comisiwn.

2.5 Fe fydd y Comisiwn yn monitro effeithiolrwydd y broses o roi'r mesurau a osodwyd yn y Cynllun hwn ar waith, a bydd yn parhau i gyfathrebu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth iddynt gael eu rhoi ar waith.

2.6 Wrth lunio'r Cynllun, mae'r Comisiwn Etholiadol yn bwriadu sicrhau bod gan fudd-ddeiliaid sy'n siarad Cymraeg a Saesneg, a'r cyhoedd yn gyffredinol, fynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis. Wrth weithio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, fe fydd y Comisiwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, a bydd y ddwy iaith yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd.

2.7 Fe fydd y Comisiwn Etholiadol yn disgwyl i drydydd partïon y mae'n eu penodi, sydd â swyddogaethau wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, i lynu at y Cynllun hwn, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth weithio i'r Comisiwn.

2.8 Fe fydd y Comisiwn yn monitro'r Cynllun yn agos i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Fel y nodwyd yn y Cynllun, fe fydd Swyddfa Cymru'r Comisiwn yn addo y bydd yr holl ddogfennau cyhoeddus y mae'n eu cynhyrchu yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Caiff y rhain eu rhestru yn Atodiad A.

2.9 Pan fo angen, gellir trefnu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer cyhoeddiadau o swyddfeydd eraill y Comisiwn drwy Swyddfa Cymru'r Comisiwn.

3 Cynllunio a darparu gwasanaethau

Camau i'w cymryd i ddarparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg

3.1 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn gymwys i'r Comisiwn yn ei gyfanrwydd, a bydd yn cael ei arwain gan Swyddfa Cymru'r Comisiwn.

3.2 Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddylunio i annog ymglymiad gyda'r iaith Gymraeg ar lefel gorfforaethol ar draws y Comisiwn. Dylai hyn sicrhau bod rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dewis cyfathrebu gyda'r Comisiwn yn yr iaith o'u dewis, p'un ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw honno, yn gallu gwneud hyn heb i hynny gael effaith niweidiol ar ansawdd y gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.

3.3 Fe fydd y Comisiwn yn ymateb i ymholiadau ysgrifenedig yn yr iaith y'u hysgrifennir. Fe fydd camau'n cael eu cymryd, drwy wefan y Comisiwn, cylchlythyr i randdeiliaid a drwy arwyddion yn Swyddfa Cymru'r Comisiwn, i hysbysebu Swyddfa Cymru a'i gallu i weithio'n ddwyieithog.

Safon y gwasanaeth yn y Gymraeg

3.4 Mae'r Comisiwn wedi'i ymrwmo i ledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ar y sail bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Fe fydd y Comisiwn yn dosbarthu safon gyfartal o wasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac fe fydd yn gosod safonau penodol ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Fe fydd y safonau hyn a'r dull o'u rhoi ar waith yn cael eu monitro'n fanwl, fel y nodir yn adran berthnasol y Cynllun hwn.

Polisiau a/neu fentrau newydd

3.5 Pan fydd y Comisiwn yn llunio polisiau neu fentrau perthnasol newydd, fe wnawn ni asesu'r canlyniadau ieithyddol o flaen llaw, i sicrhau eu bod nhw'n cwrrdd â'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

3.6 Fe fydd unrhyw aelodau o staff sy'n cymryd rhan mewn llunio polisiau newydd o fewn y Comisiwn yn cael gwybod am y Cynllun Iaith Gymraeg ac o ganlyniad, fe fydd unrhyw bolisi neu fenter newydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ac fe fydd yn gyson â'r cynllun hwn, yn hytrach na'i danseilio.

3.7 Fe fydd y Comisiwn yn ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg o flaen llaw ynghylch cynigion sydd â goblygiadau ar gyfer y Cynllun hwn.

4 Delio â'r cyhoedd Cymraeg

Gohebiaeth ysgrifenedig

4.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig gan y cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fe fydd pob llythyr y mae'r Comisiwn yn ei dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi a/neu ateb wedi'i lofnodi yn y Gymraeg. Pe byddai aelod o staff yn derbyn llythyr drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad yw ef/hi yn gallu ateb y llythyr drwy gyfrwng y Gymraeg, fe fyddan nhw'n derbyn cyfleusterau cyfieithu, neu fel arall fe fyddan nhw'n ei anfon at Bennaeth Swyddfa Cymru a fydd yn gallu trefnu bod ateb wedi'i lofnodi'n cael ei anfon drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2 Fe fydd y targedau amser ar gyfer cydnabod llythyron yn y Gymraeg yr un fath ag ar gyfer y rhai hynny mewn Saesneg (5 diwrnod gwaith ar hyn o bryd), ac ni ddylai arwain at unrhyw oedi diangen. Fe fydd atebion llawn, sy'n cael eu llunio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn cael eu darparu o fewn yr un raddfa amser â'r rhai Saesneg. Yn ôl polisi cyfredol y Comisiwn, dylid disgwyl atebion o fewn 5 diwrnod, oni bai yr hysbysir y gohebydd fel arall.

4.3 Os yw'r Comisiwn yn cael gwybod bod rhanddeiliad penodol yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, er enghraifft, yn dilyn galwad ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb yn y Gymraeg, yna bydd llythyron sy'n cael eu llunio gan y Comisiwn yn cyd-fynd â hynny. Fe fydd gohebiaeth ar bapur i rhanddeiliaid â'r cyhoedd sy'n cael ei anfon o Swyddfa Cymru'r Comisiwn yn cael ei ddsbarthu'n ddwyieithog neu'n unol â'r iaith o'u dewis, ac fe fydd y Comisiwn yn cofnodi'r iaith y dylid ei defnyddio dros y ffôn ac ar gyfer dulliau eraill o gyfathrebu lle bo'n ymarferol.

Cyfathrebu dros y ffôn

4.4 Mae'r Comisiwn yn croesawu galwadau ffôn gan y cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fe fydd pob aelod o staff, p'un ai a ydynt yn siarad Cymraeg neu beidio, yn cyfarch pobl yn ddwyieithog. Yn ogystal, fe fydd cyfarchiad dwyieithog yn cael ei glywed ar neges llais Swyddfa Cymru.

4.5 Os yw galwr yn dymuno siarad Cymraeg, fe fyddan nhw'n cael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg os oes un ar gael, sy'n gymwys i ddelio gyda'u hymholiad. Os na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, fe fydd y galwr yn cael cynnig un o dri dewis:

- Fe fydd eu galwad yn cael ei dychwelyd drwy gyfrwng y Gymraeg cyn gynted â bo aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Fe fyddan nhw'n cael syniad o ba bryd y bydd hynny'n digwydd.
- Gallan nhw barhau â'r alwad drwy gyfrwng y Saesneg.
- Gallan nhw barhau â'r alwad drwy ohebiaeth ar bapur yn y Gymraeg (neu'r Saesneg os yw'n well ganddyn nhw wneud hynny).

Cyfarfodydd cyhoeddus a hawliau etholwyr

4.6 Nid yw'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd yn aml gyda'r cyhoedd. Fodd bynnag, fe fydd Comisiynwyr a staff y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd a chynadleddau gyda sawl grŵp o ddiddordeb/proffesiynol, drwy gynadleddau a fforymau tebyg. Yn ystod ei waith, gall y Comisiwn, neu drydydd partïon sydd ynghlwm â'r Comisiwn, gynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd hefyd, fel rhan o raglenni ymchwil y mae'r Comisiwn yn rhan ohonynt.

4.7 Fe fydd gwahoddiadau i unrhyw gyfarfod cyhoeddus sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn yn cael eu hanfon yn ddwyieithog, ac fe fyddwn ni'n croesawu cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fe wnawn ni un ai hysbysu'r cyhoedd y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael, neu wahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni o flaen llaw ym mha iaith yr hoffon nhw gyfathrebu ynddi. Mewn rhannau o Gymru lle mae o leiaf 25% o'r boblogaeth leol yn siarad Cymraeg, fe fyddwn ni'n sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn yr iaith o'u dewis.

4.8 Os na wyddir o flaen llaw pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod a ph'un ai a fydd unrhyw un yn dymuno siarad Cymraeg neu beidio, fe fydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu a ddylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu beidio. Fe fydd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy sy'n debygol o fynychu a phrofiad blaenorol o gyfarfodydd tebyg.

Cyfarfodydd ffurfiol

4.9 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog yng Nghymru. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, pe byddai rhanddeiliad yn gwneud cais am gyfarfod ffurfiol gyda'r Comisiwn, fe fyddan nhw'n cael cynnig dewis iaith, a bydd hynny'n cael ei roi ar waith.

5 Cyflawni rôl y Comisiwn yng Nghymru

Hunaniaeth a delwedd gorfforaethol

5.1 Yng Nghymru, mae'r Comisiwn wedi meithrin delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog fel yr adlewyrchir yn enw, cyfeiriad, logo a gwybodaeth ffeithiol safonol y Comisiwn ar ddeunyddiau ysgrifennu (e.e. papur pennawd, papurau ffacs, cardiau busnes), bathodynau adnabod a chyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Fe fydd adolygiad o stociau cyfredol yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl eitemau perthnasol yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. Fe fydd y Comisiwn yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn wrth ddatblygu deunydd corfforaethol newydd.

5.2 Yn Swyddfa Cymru'r Comisiwn, defnyddir deunydd ysgrifennu dwyieithog ar gyfer pob dull o ohebu.

Arwyddion

5.3 Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i ddarparu arwyddion gwybodaeth dwyieithog yn ei Swyddfa yng Nghymru, gan gynnwys Cynlluniau arwyddion mewnol ac allanol.

5.4 Pan ddarperir arwyddion dwyieithog neu ar wahân drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, fe fyddan nhw'r un fath o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Gwefan

5.5 Mae gwefan gorfforaethol y Comisiwn ledled y Deyrnas Unedig yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd. Mae 'porth' Gymraeg wedi cael ei greu sy'n arwain at ddeunydd sydd wedi cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog. Fe fydd y deunydd hwn yn cael ei gyflwyno mewn fformat sydd yr un fath o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.6 Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i ddatblygu cynnwys iaith Gymraeg ar ei wefan, i gynnwys gwybodaeth gorfforaethol ac i ehangu ar fanylion ynghylch ei amcanion, rolau a chyfrifoldebau.

5.7 Pan fydd ffurflenni a chyfarwyddyd yn cael eu cyflwyno ar y wefan, fe fydd fersiynau Saesneg a Chymraeg yn cael eu creu yn unol â'r ymrwymadau a wnaethpwyd o dan adran gyhoeddiadau'r Cynllun hwn (Atodiad 1).

5.8 Yn fwy byth, fe fydd gwell cyfeiriaeth ar draws y safle i ddangos i'r rhai sy'n siarad Gymraeg pa wybodaeth sydd ar gael ar y safle drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.9 Fe fydd y Comisiwn yn darparu rhaglen, dros gyfnod o bedair blynedd yn cychwyn o fis Ebrill 2010, yn nodi sut fyddwn ni'n cynyddu cynnwys Gymraeg y wefan gorfforaethol dros amser. Fe fyddwn ni'n adolygu ein datblygiad bob blwyddyn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.10 Mae croeso i'r rhai hynny sy'n ymweld â'r safle bostio negeseuon drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n gofyn am ragor o wybodaeth ac anfon e-byst drwy gyfrwng y Gymraeg at y Comisiwn. Bydd y rhain yn cael eu hateb yn unol â'r mesurau a nodir yn adran 'gohebiaeth ysgrifenedig' y Cynllun hwn.

Ffurflenni a chyfarwyddyd perthnasol

5.11 Fe fydd y Comisiwn yn darparu ffurflenni a chyfarwyddyd dwyieithog sy'n gysylltiedig â'n gwaith yng Nghymru drwy wefan y Comisiwn.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

5.12 Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i ddarparu deunydd argraffedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd yn ffafrio dogfen sengl yn hytrach na fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân.

5.13 Pe byddai angen cyhoeddi fersiynau uniaith ar wahân gyda'r un teitl - er enghraifft oherwydd hyd neu faint - fe fydd y Comisiwn yn eu cyhoeddi nhw ar yr un pryd, a'u dosbarthu nhw gyda'i gilydd. Fe fydd nodyn arnyn nhw'n nodi bod fersiwn Cymraeg/Saesneg ar wahân ar gael.

5.14 Bydd angen i gyhoeddiadau i'r cyhoedd yng Nghymru sy'n cael eu cynhyrchu gan drydydd partïon sy'n gweithio o dan yr un contract â'r Comisiwn, gydymffurfio â'r Cynllun.

5.15 Pan fo'r Comisiwn yn cynhyrchu fersiwn ddwyieithog o ddogfen y mae'n rhaid talu amdani, ni fydd y pris yn fwy na fersiwn un iaith o'r ddogfen honno. Pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen yn cael eu cynhyrchu, fe fydd pris y fersiwn Cymraeg yr un fath â phris y fersiwn Saesneg.

5.16 Fe fydd cyfarwyddyd ysgrifenedig ar gael i staff, dylunwyr ac ymgynghorwyr sy'n gweithio i'r Comisiwn ac sy'n delio gyda chyhoeddiadau dwyieithog. Gall staff ofyn i Swyddfa Cymru'r Comisiwn am gopi o'r cyfarwyddyd hwn.

Ymchwil

5.17 Pan ofynnir i'r cyhoedd yng Nghymru am wybodaeth mewn ymateb i holiaduron ysgrifenedig fel rhan o raglen ymchwil ar gyfer astudiaethau cenedlaethol y Comisiwn, fe fydd holiaduron yn cael eu cyflwyno, yn y Saesneg neu'r Gymraeg, a gallan nhw gael eu hateb yn y naill iaith neu'r llall.

Datganiadau i'r Wasg

5.18 Fe fydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog lle bo'n briodol, neu yn yr iaith ofynnol.

5.19 Fe fydd y Comisiwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a chyfryngau darlledu Cymraeg.

Hysbysebu ac ymgyrchoedd

5.20 Os yw'r Comisiwn, neu asiantaeth a benodwyd neu drydydd parti, yn hysbysebu neu'n hyrwyddo'r broses ddemocrataidd i'r cyhoedd yng Nghymru, fe fyddan nhw'n gwneud hyn yn ddwyieithog yn y wasg argraffedig neu ar fyrddau hysbysebu yng Nghymru, yn unol â rôl y Comisiwn fel y#i diffinnir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda. Fe fydd hysbysebion ac ymgyrchoedd sy'n cynnwys sianeli cyfryngau eraill yn cael eu cyflwyno yn yr iaith sy'n briodol i'r sianel honno, neu'n ddwyieithog lle bo'n briodol.

5.21 Fe fydd arddangosfeydd y Comisiwn Etholiadol sy'n cael eu cyflwyno mewn arddangosfeydd a chynadleddau yng Nghymru yn hollol ddwyieithog.

Asesu cwestiwn refferendwm

5.22 Yn unol â'r gyfraith, mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnig sylwadau ar eglurder cwestiynau refferendwm y Deyrnas Unedig, Cymru, a'r rhanbarthau, a rhai o gwestiynau refferendwm llywodraeth leol.

5.23 Dylai cwestiwn refferendwm gyflwyno'r dewisiadau yn glir, yn syml ac yn niwtral, ac felly fe ddylai:

- Fod yn rhwydd i'w ddeall
- Cyrraedd y pwynt
- Bod yn glir
- Osgoi annog pleidleiswyr i ystyried un ymateb yn fwy ffafriol nag un arall
- Osgoi camarwain pleidleiswyr

5.24 Fe fydd y Comisiwn yn ymgynghori'r llwyr gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod y cwestiwn iaith Gymraeg a ddefnyddir ar bapurau pleidleisio dwyieithog yng Nghymru yn adlewyrchu'n llwyr yr egwyddorion a ystyrir wrth ddatblygu unrhyw gwestiwn.

5.25 Fe fydd y Comisiynau'n sicrhau hefyd fod y broses o asesu'r cwestiwn iaith Gymraeg a gyflwynir i ni gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn adlewyrchu'r cwestiwn drafft

Hysbysiadau cyhoeddus swyddogol a hysbysebu swyddi

5.26 Os yw'r Comisiwn yn cyhoeddi hysbysiadau swyddogol neu'n hysbysebu swyddi mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu yn bennaf neu'n llwyr yng Nghymru, fe fydd yn gwneud hyn yn ddwyieithog, ac fe fydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd ac yr un fath o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6 Gweithredu a monitro'r Cynllun

Staffio

6.1 Fe fydd adran adnoddau dynol y Comisiwn Etholiadol yn cadw cofnod o aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo â chroesgyfeirio ymholiadau cyfrwng Cymraeg. Mae nifer a dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog ar draws ei holl wasanaethau. Bwriad y mesurau a osodwyd isod yw cryfhau gallu'r Comisiwn i barhau i gwrdd â'r amcan hwnnw drwy gefnogaeth gan ei staff.

6.2 Fe fydd y Comisiwn yn archwilio ei wasanaethau er mwyn canfod y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, ac fe fydd yn llunio disgrifiadau swyddi'n unol â hynny. Gellid diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o waith tîm, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â swydd benodol. Dylid pwysleisio na fydd y polisiau iaith yn y Cynllun hwn yn cael dylanwad niweidiol ar swyddi unrhyw ddeiliad swydd sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

6.3 Fe fydd y Comisiwn yn annog pobl sydd â sgiliau dwyieithog i ymgeisio am swyddi yn Swyddfa Cymru, drwy gynnwys datganiad yn yr hysbysebion swyddi priodol fod y Comisiwn yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

6.4 Ni fydd unrhyw aelod o staff yn dod o dan unrhyw bwysau i dderbyn hyfforddiant mewn sgiliau'r iaith Gymraeg neu fel arall ddysgu'r iaith, a bydd pob penodiad yn cael eu gwneud yn unol â pholisiau cyfleoedd cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth.

Dysgu Cymraeg

6.5 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo'n llwyr i annog a chefnogi'r aelodau hynny o staff sydd eisiau dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

Recriwtio

6.6 Bydd gallu ieithyddol yn cael ei ystyried fel un o sawl sgil perthnasol wrth benodi staff yng Nghymru. Os ystyrir gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hyn yn cael ei nodi ar hysbysebion swyddi perthnasol.

Trefniadau gweinyddol

6.7 Bydd pob aelod o staff yn derbyn cyfarwyddyd, drwy fewnwyd y Comisiwn, i sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd â'r Cynllun hwn. Bydd y Cyfarwyddyd hwn, a fydd yn cynnwys Sesiwn Briffio a Siart Llif, yn canfod sut fydd y Cynllun yn cael ei roi ar waith, ac fe fydd yn rhoi manylion am gyfrifoldebau y bydd staff perthnasol yn eu rhoi ar waith.

6.8 Bydd pob cyfarwyddiaeth a swyddfa ddatganoledig y Comisiwn yn derbyn cyfrifoldebau am agweddau ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith eu hunain. Bydd y Comisiwn yn sicrhau, drwy ei weithdrefnau cytundebol arferol a drwy grŵp monitro'r Cynllun, bod cyfieithwyr sy'n cael eu defnyddio gan y sefydliad wedi'u cymhwyso'n addas, a'u bod nhw'n gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Comisiwn gan bartïon eraill

6.9 Wrth wneud unrhyw drefniadau newydd, fe fydd y Comisiwn Etholiadol yn gofyn bod unrhyw gyrrff, sefydliadau neu gwmnïau neu bartïon eraill sy'n cynnal gwasanaethau ar ei ran ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn cydymffurfio gyda darpariaethau priodol y Cynllun hwn. Bydd y Comisiwn yn sicrhau y bydd ei gontractwyr neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, neu'n cyfathrebu gyda nhw, yn rhoi pob elfen berthnasol o'r Cynllun hwn ar waith wrth gyflawni eu rôl. Bydd gofyn i gontractwyr a thrydydd partïon o'r fath gydweithio gyda'r Comisiwn i fonitro'r Cynllun yn effeithiol, a bydd disgwyl iddynt ddarparu adroddiadau perfformio rheolaidd fel rhan o'r trefniadau perfformio safonol.

6.10 Bydd dogfennau tendro a chontractau perthnasol sy'n berthnasol i drydydd partïon, asiantaethau a chontractwyr sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y Comisiwn, yn nodi gofynion defnyddio'r iaith Gymraeg yn unol â'r Cynllun hwn.

Monitro

6.11 Bydd y weithred o roi'r Cynllun ar waith yn cael ei monitro gan Bennaeth Swyddfa Cymru, a bydd yn derbyn cefnogaeth gan Brif Swyddog Cymru drwy ymgynghoriad â chyfarwyddwyr perthnasol.

6.12 Bydd y Comisiwn yn monitro'r broses o roi'r Cynllun ar waith, a fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Mesur a yw'r Comisiwn yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a pha mor dda mae'n cyflawni hyn.
- Mesur ansawdd y gwasanaeth iaith Gymraeg.
- Mesur effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli Cynllun y Comisiwn.
- Cymharu'r adnoddau sydd ar gael o ran cydymffurfio â'r Cynllun hwn, a phenderfynu a yw'r adnoddau hynny'n ddigonol.
- Canfod gwendidau yn y gwasanaethau a ddarperir, a llunio cynllun gweithredu ac amserlen i gywiro'r sefyllfa honno.
- Bydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a fydd yn disgrifio'r datblygiad o ran rhoi mesurau'r cynllun ar waith.

Cyhoeddi'r Cynllun a gwasanaethau iaith Gymraeg y Comisiwn Etholiadol

6.13 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymrwymo i sicrhau lefel gryf o ymwybyddiaeth o'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai ei staff a'i gontractwyr fod yn ymwybodol o'r anghenion a'r gofynion y mae'r Cynllun hwn yn ei roi ger eu bron. Mae'r Comisiwn yn credu hefyd, ei fod yn flaenoriaeth bod ei rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol fod y Comisiwn yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.

6.14 Bydd y Comisiwn Etholiadol yn hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch y Cynllun, ac yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n delio gyda'r Cynllun yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys. Bydd copïau o'r Cynllun yn cael eu hanfon ar gais at unrhyw rhanddeiliaid perthnasol neu aelodau o'r cyhoedd sy'n gofyn amdanynt

6.15 Bydd y dulliau canlynol o hyrwyddo'r Cynllun yn cael eu mabwysiadu:

- a) cyhoeddi'r Cynllun ar wefan y Comisiwn gyda chyfarwyddyd i staff a chontractwyr;
- b) paratoi testun ar gyfer gwefan y Comisiwn;
- c) copïau o'r Cynllun i gael eu dosbarthu ar gais i gontractwyr y Comisiwn yn ogystal â sefydliadau, unigolion neu rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb, fel y Cynulliad Cenedlaethol;

6.16 Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r Bwrdd i ddatrys cwynion – ac yn ystod unrhyw archwiliad a gynhelir dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.

Cwynion

6.17 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu gwynion ynghylch y Cynllun hwn at:

Rhydian Huw Thomas
Dirprwy Bennaeth Swyddfa Cymru
Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 02920 346800

E-bost: rthomas@electoralcommission.org.uk

Fe wnawn ni groesawu, ystyried a chofnodi unrhyw gwynion neu gynigion i wella ein gwasanaethau dwyieithog.

Atodiad A: Dadansoddiad o allbwn y Comisiwn yng nghydestun y Cynllun hwn

Tabl A1: Canllaw ar ddadansoddiad allbwn y Comisiwn

| Allbwn | Cynulleidfa | Darpariaeth iaith |
|---|--|---|
| <p>Adroddiadau statudol Adroddiadau statudol ledled y Deyrnas Unedig</p> <p>Adroddiadau statudol sy'n benodol i Gymru</p> <p>Cynllun Blyneddol / Corfforaethol</p> | <p>Cyffredinol</p> <p>Cyffredinol</p> <p>Cyffredinol</p> | <p>Saesneg yn unig</p> <p>Dwyieithog</p> <p>Dwyieithog</p> |
| <p>Cyfarwyddyd / Ffurflenni / Holiaduron Ledled y Deyrnas Unedig*</p> <p>Penodol i Gymru</p> <p>Cylchlythyron / Rhybuddion gweinyddu</p> | <p>Rhanddeiliaid penodol</p> <p>Rhanddeiliaid penodol</p> <p>Rhanddeiliaid penodol</p> | <p>Dwyieithog</p> <p>Dwyieithog</p> <p>Saesneg yn unig</p> |
| <p>Papurau ar faterion / Papurau Ymgynghori / Cyfarwyddiadau / Tafenni ffeithiau Ledled y Deyrnas Unedig</p> <p>Penodol i Gymru</p> | <p>Rhanddeiliaid penodol</p> <p>Rhanddeiliaid penodol</p> | <p>Saesneg yn unig</p> <p>Dwyieithog</p> |
| <p>Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus / Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn y gymuned Ledled y Deyrnas Unedig</p> <p>Penodol i Gymru</p> | <p>Cyffredinol</p> <p>Cyffredinol</p> | <p>Dwyieithog yng Nghymru</p> <p>Dwyieithog yng Nghymru</p> |
| <p>Adnoddau dynol Ledled y Deyrnas Unedig</p> <p>Swyddi yn Swyddfa Cymru</p> | <p>Ymgeiswyr posibl</p> <p>Ymgeiswyr posibl</p> | <p>Saesneg yn unig</p> <p>Dwyieithog</p> |

* Mae'r Comisiwn yn ceisio darparu ffurflenni a chyfarwyddyd perthnasol ynghylch etholiadau a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog drwy wefan y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi llunio rhaglen gyfieithu dreigl fydd yn ei alluogi i gyflawni'r nod.

Atodiad B: Cynllun Gweithredu

Tabl B1: Cynllun Gweithredu ar gyfer y wefan gorfforaethol

| | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 |
|--|---|---|---------|---------|
| Sicrhau bod defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gweld lle gallan nhw ddod o hyd i gynnwys Cymraeg ar y safle yn glir | Glanhau tudalen gartref ardal Cymru i gynnwys nodwedd gyson sy'n egluro wrth ddefnyddio'r wefan i ddod o hyd i gynnwys yn y Gymraeg. | <ul style="list-style-type: none"> • Cael gwared â nodweddion 'afreolaidd' cyfredol. • Tynnu'r rhestrau deinamig ar waelod tudalen Cymru sy'n dweud 'Cyfarwyddyd', 'Ffurflenni' ac ati ar hyn o bryd, gan fod y rhain yn rhoi disgwyliad ffug i'r defnyddiwr. | | |
| Datblygu cynnwys iaith Gymraeg ar y wefan i gynnwys gwybodaeth gorfforaethol | Ychwanegu tudalennau at y llywio eilaidd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • amdanom ni • amcanion a chyflawniadau corfforaethol • rolau a chyfrifoldebau strwythur corfforaethol | | | |

| | | | | |
|---|---|--|--|--|
| <p>Gwella cyfeiriaeth a dull o groesgysylltu fel nad yw defnyddwyr yn gweld cynnwys Cymraeg yn ymddangos yng nghanol y tudalennau Saesneg</p> | <p>Ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i ddolenni i'r cynnwys Cymraeg tu allan i dudalennau Cymru, e.e. ar dudalennau UK Parliamentary elections o dan Guidance. Dyma lle mae cynnwys i gyfarwyddyd a ffurflenni yn y Gymraeg yn ymddangos gyda'r Saesneg ar yr un dudalen.</p> | <p>Mae angen cael gwell cyfeiriaeth a dull o groesgysylltu, ac wedyn, os oes cynnwys Cymraeg ar gael wrth i ddefnyddwyr bori drwy'r tudalennau Saesneg, gallan nhw ddewis hwnnw a chael eu harwain at dudalen ar wahân i gael mynediad at y cynnwys Cymraeg.</p> | | |
| <p>Sicrhau bod holl dudalennau Cymru yn y Gymraeg</p> | | <p>Ar hyn o bryd ar dudalen Cymru, mae hanner y dudalen mewn Cymraeg a hanner mewn Saesneg. Rydym eisiau sicrhau bod yr holl system llywio ar dudalen Cymru yn y Gymraeg.</p> | | |

Tabl B2: Deall Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn effeithiol

| | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 |
|---------------------------|---|--|---|---|
| a) Hyfforddi Staff | Datblygu a dosbarthu cyfarwyddyd mewnol i'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r holl staff erbyn Ebrill 2011 | Datblygu modiwl dysgu rhyngweithiol i'r holl staff ar y Cynllun Iaith Gymraeg erbyn Ebrill 2012 | Cyfres fanwl o sesiynau cyfarwyddo i staff ar draws y Comisiwn erbyn 2013 | Arolwg i staff ar farnau ac agweddau tuag at y Cynllun Iaith Gymraeg a'i effeithiolrwydd erbyn 2014 |
| | | Gweithio gyda'r Tîm Ymgyrchu a Gwybodaeth Gyhoeddus i ddatblygu adnodd i staff ar bob agwedd sy'n gysylltiedig â gwybodaeth gyhoeddus (gohebiaeth, cyfarfodydd cyhoeddus a mewnol, llinellau cymorth ac ati) a'r Iaith Gymraeg | Gweithio gyda'r Tîm Ymgyrchu i ddatblygu adnodd i staff sy'n gysylltiedig ag Ymgyrchoedd / Hysbysebu a'r Iaith Gymraeg | Gweithio gyda'r Tîm Ymchwil i ddatblygu adnodd i staff sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil y Comisiwn a'r Iaith Gymraeg |
| b) Archwilio Staff | Cynnal archwiliad mewnol o'r holl staff i ganfod y rhai hynny sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn y sefydliad | Cynnal archwiliad mewnol o'r holl staff i ganfod y rhai hynny sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn y sefydliad | Cynnal archwiliad mewnol o'r holl staff i ganfod y rhai hynny sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn y sefydliad | Cynnal archwiliad mewnol o'r holl staff i ganfod y rhai hynny sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn y sefydliad |

| | | | | |
|-----------------------|---|---|---|---|
| c) Etholiadau | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw etholiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw etholiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw etholiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw etholiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru |
| ch) Refferenda | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau o dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw refferendwm sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau o dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw refferendwm sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau o dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw refferendwm sy'n cael ei gynnal yng Nghymru | Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau o dan Gynllun laith Cymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer unrhyw refferendwm sy'n cael ei gynnal yng Nghymru |
| | Sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i Gynllun laith Gymraeg o ran sicrhau bod eglurder unrhyw gwestiwn refferendwm yn cael ei farnu a'i brofi'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i Gynllun laith Gymraeg o ran sicrhau bod eglurder unrhyw gwestiwn refferendwm yn cael ei farnu a'i brofi'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i Gynllun laith Gymraeg o ran sicrhau bod eglurder unrhyw gwestiwn refferendwm yn cael ei farnu a'i brofi'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i Gynllun laith Gymraeg o ran sicrhau bod eglurder unrhyw gwestiwn refferendwm yn cael ei farnu a'i brofi'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

| | | | | |
|--|---|---|---|---|
| d) Monitro Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn | Cyflwyno adborth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r Comisiwn yn cwrdd â gofynion y cynllun a'r cynllun gweithredu erbyn Mehffin 2010 | Cyflwyno adborth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r Comisiwn yn cwrdd â gofynion y cynllun a'r cynllun gweithredu erbyn Mehffin 2011 | Cyflwyno adborth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r Comisiwn yn cwrdd â gofynion y cynllun a'r cynllun gweithredu erbyn Mehefin 2012 | Cyflwyno adborth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r Comisiwn yn cwrdd â gofynion y cynllun a'r cynllun gweithredu erbyn Mehefin 2013 |
| | | | | Cynhyrchu fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy gydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn mis Mawrth 2014 |

Tabl B3: Gweithio gyda Thrydydd Partïon a Grwpiau

| | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 |
|-----------------------------|--|--|--|--|
| Cyngor i gontractwyr | Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau | Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau | Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau | Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau |
| | Sesiynau cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru | Sesiynau cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru | Sesiynau cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru | Sesiynau cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru |

Cysylltu â ni

Ein Prif Swyddfa

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0500
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Swyddfa Cymru

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Ein swyddfeydd yn Lloegr

The Electoral Commission
Eastern and South East Office
Trevelyan House
30 Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0600
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0600
south@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Tel: 01904 567990
Fax: 01904 567719
Textphone: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Tel: 02476 820086
Fax: 02476 820001
Textphone: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Tel: 020 7271 0600
Fax: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0600
south@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
South West Office
Regus
1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Tel: 01392 314617
Fax: 01392 314001
Textphone: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505

info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer ein
swyddfeydd yn yr Cymru a rhanbarthau
Lloegr tu fewn i glawr cefn yr adnodd hwn.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan
Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y
broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd
ynndi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau
ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer
etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif